Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Mawrth 20 2020

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid

Yn dilyn cyhoeddiad Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru Kirsty Williams, mae'r ysgol yn cau heddiw, Dydd Gwener, Mawrth 20fed am gyfnod amhenodol.

Er mwyn paratoi am y cyfnod pan fydd yr ysgol ar gau, rydym wedi rhoi'r canlynol mewn lle:

- Darparu manylion Show My Homework a manylion mewngofnodi HWB Cymru i bob disgybl
- Darparu gwersi / tasgau ar Show My Homework ar gyfer parhau â dysgu eich plentyn sy'n adlewyrchu ei amserlen/hamserlen
- Darparu cyfarwyddyd ar sut i gael mynediad i'r gwaith.

Yn ogystal, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi darparu tudalen ar eu gwefan gyda gwybodaeth am wefannau ac apiau defnyddiol.
https://www.ceredigion.gov.uk/digitalresources
https://www.ceredigion.gov.uk/adnoddaudigidol

Mae'r Cyngor â threfniadau ar waith i rieni sydd yn gweithio yn y gwasanaethau brys, cartrefi henoed, neu'n darparu gofal i bobl yn eu cartrefi i gofrestru eu hanghenion gofal. Bydd gofal i blant y bobl hyn ar gael am ddim mewn canolfannau ar hyd a lled y sir ac mae'r wybodaeth am gofrestru am ofal plant wedi ei ddanfon atoch heddiw mewn e-bost ac ar rwydweithiau cymdeithasol yr ysgol.
https://www.ceredigion.gov.uk/resident/childcare-for-key-workers/
https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/gofal-plant-i-weithwyr-allweddol/

Arholiadau TGAU a Safon Uwch Haf 2020 ar gyfer bl 10,11,12 a 13

Ni fydd arholiadau allanol TGAU a Safon Uwch yn cael eu cynnal eleni ar gyfer dysgwyr bl 10,11,12 a 13. Rydym wedi derbyn gwybodaeth heddiw gan Cymwysterau Cymru bydd graddau yn cael eu dyfarnu gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth. Byddant yn seiliedig ar gyfuniad o ffactorau a all gynnwys marciau am waith a gwblhawyd hyd yma, er enghraifft, canlyniadau UG ar gyfer graddau Safon Uwch, a graddau safonedig a asesir gan athrawon.

Bydd graddau a asesir gan athrawon yn seiliedig ar yr hyn y byddai athrawon yn disgwyl i ddysgwr ei gyflawni ar ddiwedd y cwrs. Mae angen iddynt gynrychioli dyfarniad teg, rhesymol ac wedi'i ystyried yn ofalus o'r radd fwyaf tebygol y gellid ei gyflawni mewn amgylchiadau arferol. Mae hwn yn ddyfarniad proffesiynol sy'n seiliedig ar y wybodaeth asesu gyfun a gedwir ar gyfer y dysgwr hwnnw a bydd yn farn gyfannol yn hytrach nag yn canolbwyntio ar un ffynhonnell dystiolaeth fel ffug arholiadau. Nid graddau targed na graddau dyheadol yw'r rhain ac nid ydynt yn gysylltiedig â mesurau perfformiad, sydd wedi'u hatal am eleni gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw Cymwysterau Cymru yn bwriadu cyhoeddi graddau ar gyfer Safon UG nac ar gyfer asesiadau uned a gymerir gan ddysgwyr Blwyddyn 10 yn yr un modd. Ar gyfer y dysgwyr hynny, maent yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys y cyfle i sefyll arholiadau

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

mewn cyfresi arholiadau dilynol. Byddant yn rhannu mwy o fanylion am y cynlluniau hynny cyn gynted ag y medrant a byddwn yn eich hysbysu.

Mae Cymwysterau Cymru dal i ystyried y ffordd decaf o roi graddau i ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau ar wahân i TGAU a Safon Uwch. Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu cynnig ledled y DU, felly maent yn gweithio gyda chyd-reoleiddwyr, byrddau arholi a llywodraethau ledled y DU i sicrhau cysondeb. Byddant yn rhannu mwy o fanylion am y cynlluniau hynny cyn gynted ag y gallant a byddwn yn eich hysbysu.

Am wybodaeth bellach, gweler y datganiad isod gan Cymwysterau Cymru, a gyhoeddwyd heddiw:
https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws/cyhoeddi-graddau-ar-gyfer-cymwysterau-haf-2020/

Mae'n destun tristwch mawr inni nad ydym wedi medru ffarwelio â blynyddoedd 11 ac 13 yn y modd arferol yn dilyn digwyddiadau digynsail yr wythnosau diwethaf. Gobeithiwn weld nifer fawr o'n disgyblion blwyddyn 11 yn dychwelyd atom ar gyfer y Chweched Dosbarth, a dymunwn bob llwyddiant i'r rheiny fydd yn cymryd llwybrau eraill. Dymunwn y gorau hefyd i ddisgyblion blwyddyn 13 sydd yn ein gadael ni am addysg uwch neu fyd gwaith, ac yn diolch yn ddiffuant i chi am eich cyfraniad gwerthfawr i gymuned yr Ysgol drwy gydol eich amser gyda ni. Rydym ni'n gobeithio yn fawr y bydd cyfle i ffarwelio â chi gyd yn swyddogol maes o law.

Rydym fel cymdeithas a chenedl yn gwynebu cyfnod anodd a chymhleth na welwyd erioed ei debyg o'r blaen. Gofalwch am eich gilydd a chadwch yn ddiogel.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch amynedd.

Yn gywir,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro